AMGUEDDFA CYMRU

# Ein Cynllun Gweithredol 2023/24

amgueddfa.cymru
museum.wales

# Cynllun Gweithredol 2023/24

Daw Addewidion Strategol 1-6 a'r Hwyluswyr o Strategaeth 2030 Amgueddfa Cymru.

Mae'r Amcanion Lles wedi'i nodi yn y blwch gwyrdd.

Daw Gweithgareddau o'r Cynllun Busnes 5 mlynedd, ac maent yn berthnasol ar gyfer y cyfnod 2021-26.

## Addewid Strategol 1: Cynrychioli pawb

| Gweithgareddau (2021-26) | Cyfarwyddwr / Cyfadran | Cynllun Gweithredol 2023/24 – Camau Gweithredu | Swyddog Arweiniol | Chwarter cyflawni |
|---|---|---|---|---|
| Mae'r casgliad cenedlaethol yn cynrychioli ac yn cael ei rannu â phawb o bobl Cymru | | | | |
| A1.01<br>Rhoi Siarter Dad-drefedigaethu casgliadau Amgueddfa Cymru ar waith. | Casgliadau ac Ymchwil | • Dechrau rhoi'r siarter ar waith, gan ystyried yn fanwl unrhyw effaith posibl ar y casgliadau.<br>• Datblygu strategaethau priodol ar gyfer ailddosbarthu ac ail-gartrefu, o bosibl.<br>• Adolygu a gwerthuso'r Siarter a'i haddasu os oes angen. | Pennaeth Hanes Cyhoeddus ac Archaeoleg | Ch1-Ch4<br>Ch1-Ch4<br>Ch4 |
| A1.02<br>Datblygu a chyflawni dull newydd o weithio er mwyn hwyluso defnydd eang o'r casgliadau dros Gymru, o fewn y rhwydwaith amgueddfeydd rhanbarthol a chymunedau ym mhob un o'r 22 Awdurdod Lleol. | Casgliadau ac Ymchwil | • Adolygu cynnydd ym Mlwyddyn 3 ac addasu'r strategaeth a'r broses o'i rhoi ar waith yn unol â hynny. Parhau i adnabod a mynd i'r afael â meysydd lle mae'r galw yn isel, yn ogystal ag unrhyw rwystrau eraill a nodwyd.<br>• Gwerthuso effeithiolrwydd y polisi gyda sefydliadau sy'n benthyg gennym ni, Cangen Amgueddfeydd Llywodraeth Cymru fel yr asiantaeth datblygu sector | Pennaeth Gwasanaethau Casgliadau | Ch3-Ch4<br>Ch1-Ch4 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | a Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru. | | |
| A1.03<br>Datblygu a chyflawni Strategaeth Casgliadau newydd sy'n hyrwyddo'r gwaith o gynyddu amrywiaeth yn y casgliad, ac sy'n gweithio ar y cyd â phartneriaid cymunedol. | Casgliadau ac Ymchwil | • Cyhoeddi'r strategaeth a'i rhoi ar waith, a'i chyflawni yn unol â hynny. Parhau i adnabod a mynd i'r afael â meysydd lle mae'r galw yn isel, yn ogystal ag unrhyw rwystrau eraill a nodwyd. | Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil | Ch3 |
| A1.031<br>Cynnal safon gofal Casgliadau a gydnabyddir yn genedlaethol. | Casgliadau ac Ymchwil | • Cadw'r Achrediad Amgueddfa a datblygu cynllun ar gyfer cyflawni Achrediad Gwasanaeth Archif. | Pennaeth Gwasanaethau Casgliadau | Ch1-Ch4 |
| A1.032<br>Gweithio tuag at ddatblygu Oriel Genedlaethol Gelf Gyfoes. | Casgliadau ac Ymchwil | • Gweithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru i symud y broses o ddatblygu a sefydlu Oriel Genedlaethol Gelf Gyfoes i Gymru ymlaen. | Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil | Ch1-Ch4 |
| A1.033<br>Gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i ddatblygu a sefydlu Amgueddfa Bêl-droed newydd i Gymru. | Casgliadau ac Ymchwil | • Cefnogi datblygiad Amgueddfa Bêl-droed Cymru. | Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil | Ch1-Ch4 |
| A1.034<br>Datblygu llwybrau newydd ar gyfer defnyddio ein casgliadau fel adnodd ysbrydoledig i | Casgliadau ac Ymchwil | • Datblygu cynllun.<br>• Cymeradwyo'r fframwaith agenda dylunio newydd. | Pennaeth Celf/Pennaeth Casgliadau Dylunio | Ch3<br>Ch1 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| wneuthurwyr a phobl greadigol broffesiynol. | | | | |
| Chwarae rôl arweiniol wrth gefnogi Strategaeth Ddiwylliannol Llywodraeth Cymru | | | | |
| A1.041<br>Sicrhau bod Amgueddfa Cymru yn cyfrannu at ddatblygiad y Strategaeth Ddiwylliant. | Cyfarwyddwr Cyffredinol | • Darparu mewnbwn a chyfrannu at ddatblygiad Strategaeth Ddiwylliant Llywodraeth Cymru. | Cyfarwyddwr Profiad Ymwelwyr / Cyfarwyddwr Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus | Ch1-Ch2 |
| Mae arddangosfeydd a digwyddiadau yn cael eu creu, eu defnyddio a'u mwynhau gan gymunedau dros Gymru ac yn holl ardaloedd awdurdodau lleol Cymru | | | | |
| A1.06<br>Datblygu a chynnal gweithgareddau a digwyddiadau cymunedol gyda phartneriaid. | Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus | • Cynnal rhaglen digwyddiadau gyda chymunedau a phartneriaid eraill, fel y nodwyd yn y Strategaeth Rhaglenni Cyhoeddus.<br>• Datblygu rhaglen digwyddiadau gyda chymunedau. | Pennaeth Digwyddiadau | Ch1-Ch4<br><br>Ch3 |
| A1.061<br>Datblygu strategaeth ar gyfer arddangosiadau parhaol sy'n berthnasol i dreftadaeth cymunedau sy'n wynebu anghydraddoldeb neu hiliaeth, a'i rhoi ar waith. | Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus | • Gweithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru i gyflawni cam 1 y cynllun gweithredu ar gyfer arddangosiadau parhaol, fel y nodwyd yn y Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad, ac er mwyn cefnogi Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru. | Cyfarwyddwr Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus | Ch1-Ch4 |
| A1.07<br>Datblygu arddangosfeydd | Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus | • Cynnal rhaglen arddangosfeydd gyda chymunedau a phartneriaid eraill, fel y nodwyd yn y Strategaeth Rhaglenni Cyhoeddus. | Pennaeth Arddangosfeydd a Dylunio | Ch1-Ch4 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| cymunedol gyda phartneriaid. | | | | |
| Rhoi Strategaeth Marchnata a Chyfathrebu ar waith sy'n cynrychioli amrywiaeth cymunedau Cymru | | | | |
| A1.071<br>Datblygu a chyflawni Strategaeth Marchnata a Chyfathrebu sy'n cynrychioli amrywiaeth cymunedau Cymru. | Prif Swyddog Gweithredu | • Adolygu gweithgarwch Marchnata a Chyfathrebu i gefnogi'r gwaith o ddatblygu strategaeth fydd yn gwella cynrychiolaeth ac ymgysylltiad â'n gwaith ym mhob un o'n cymunedau. | Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu | Ch1-Ch4 |
| Mae Staff a'r Bwrdd yn adlewyrchu amrywiaeth Cymru | | | | |
| A1.11<br>Diweddaru Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion Amgueddfa Cymru. | Adnoddau Corfforaethol | • Parhau â'r cynllun pedair blynedd.<br>• Mabwysiadu Iaith Arwyddion Prydain fel trydedd iaith yn ein gwaith gyda staff, gwirfoddolwyr a'r cyhoedd.<br>• Ar y cyd â Chyngor Celfyddydau Cymru, comisiynu ymchwil pellach dan arweiniad pobl F/fyddar ac anabl ar ddatblygu lleoliadau hygyrch.<br>• Gwneud yn glir bod angen i ni sicrhau darpariaeth hygyrch yn rhan o'r broses gaffael.<br>• Bydd amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol Diwygiedig yn parhau i adlewyrchu a chefnogi nodau ehangach a chamau gweithredu y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. | Pennaeth Adnoddau Dynol (Pennaeth Profiad Ymwelwyr a Phenaethiaid Rhaglenni)<br><br>Pennaeth Adnoddau Dynol<br><br>Pennaeth Adnoddau Dynol | Ch3<br>Ch2<br><br>Ch2<br><br>Ch4 |
| A1.111<br>Gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac | Prif Swyddog Gweithredu | • Rhoi cynlluniau ar waith i sicrhau bod y Bwrdd, Pwyllgorau a grwpiau cynghori yn | Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol | Ch3 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolwyr i recriwtio Bwrdd sy'n cynrychioli amrywiaeth Cymru. | | amrywiol yn eu cynrychiolaeth ac yn adlewyrchu cymunedau ledled Cymru. | | |
| Hyrwyddo strategaethau cydraddoldeb Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a'r Strategaeth Tlodi Plant ddrafft | | | | |
| A1.12<br>Cefnogi'r gwaith o roi Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol a Chymru Wrth-hiliol, a Chynllun Gweithredu LHDTC+ Llywodraeth Cymru ar waith, yn ogystal â chynlluniau cydraddoldeb eraill mewn amgueddfeydd ac orielau. | Cyfarwyddwr Cyffredinol | • Gweithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru i adolygu'n chwarterol effeithiolrwydd y gwaith o wireddu'r Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad a'r fenter a noddir ar y cyd i gefnogi Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru.<br>• Adolygiad blynyddol ar ehangu ymgysylltiad wedi'i adolygu a'i gymeradwyo gan y Bwrdd a'r Cyngor. | Pennaeth Ymgysylltu a Gwirfoddoli, Penaethiaid Casgliadau ac Ymchwil | Ch1-Ch4<br><br>Ch3 |
| A1.13<br>Datblygu a chyhoeddi Amcanion Tlodi Plant. | Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus | • Ymateb i Strategaeth Tlodi Plant ddrafft LlC.<br>• Adolygu Amcanion Tlodi Plant gyda chyrff cenedlaethol eraill.<br>• Drafftio Amcanion Tlodi Plant AC | Pennaeth Ymgysylltu a Gwirfoddoli; Pennaeth Addysg | Ch3<br><br>Ch2-Ch4<br><br>Ch4 |

## Addewid Strategol 2: Ysbrydoli creadigrwydd a dysgu am oes

| Gweithgaredd | Cyfarwyddwr | Cynllun Gweithredol 2023/24 – Camau Gweithredu | Arweinydd | Chwarter |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Fel sefydliad creadigol, meithrin a hwyluso creadigrwydd i bawb, a dathlu llwyddiannau creadigol Cymru | | | | |
| A2.02<br>Datblygu Cynllun Busnes a Strategaeth Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus 5 Mlynedd a'u rhoi ar waith. | Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus | • Adolygu'r gwaith o wireddu'r Cynllun Gweithredu yn flynyddol a darparu adroddiad i'r Uwch Dîm Gweithredol a'r Bwrdd ar gynnydd. | Cyfarwyddwr Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus | Ch4 |
| A2.03<br>Cynnal arddangosfeydd a digwyddiadau i ddathlu creadigrwydd ar y cyd â phartneriaid. | Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus | • Datblygu a chyflawni Rhaglenni Digwyddiadau ac Arddangosfeydd i gefnogi a dathlu creadigrwydd yn amgueddfeydd Amgueddfa Cymru a lleoliadau partner yng Nghymru, fel y nodwyd yn y Strategaeth Rhaglenni Cyhoeddus.<br>• Cynnal rhaglenni partneriaeth gydag Artes Mundi ac arddangosfa Moroedd Jwrasig. | Pennaeth Arddangosfeydd a Dylunio / Pennaeth Digwyddiadau / Pennaeth Cyhoeddi<br><br>Pennaeth Arddangosfeydd a Dylunio a'r Pennaeth Digwyddiadau | Ch1-Ch4<br><br>Ch4 |
| Mae pob ysgol yng Nghymru yn defnyddio Amgueddfa Cymru bob blwyddyn i wireddu'r cwricwlwm cenedlaethol | | | | |
| A2.06<br>Datblygu a chynnal rhaglenni ac adnoddau hybrid i ysgolion. | Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus | • Datblygu a chynnal mentrau partneriaeth fel y nodwyd yn y Cynllun Gweithredu.<br>• Cynnal rhaglen Cwricwlwm Cenedlaethol i Gymru fel yr amlinellwyd yng Nghynllun Gweithredu'r Strategaeth Rhaglenni Cyhoeddus.<br>• Datblygu a chyhoeddi adnoddau i athrawon ac ysgolion i gefnogi'r cwricwlwm newydd a hyrwyddo dysgu Cymraeg, cynhwysiant ac arfer gwrth-hiliol. | Pennaeth Addysg | Ch1-Ch4<br><br>Ch1-Ch4<br><br>Ch1-Ch4 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Datblygu'r rhaglen ysgolion uwchradd. | | |
| Mae oedolion a theuluoedd ar draws Cymru yn cael eu hysbrydoli i ddysgu gydag Amgueddfa Cymru | | | | |
| A2.07<br>Datblygu a chynnal Rhaglen Addysg Cyn-ysgol. | Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus | • Cefnogi Addysg Cyn-ysgol mewn rhaglenni partneriaeth. | Pennaeth Addysg | Ch1-Ch4 |
| A2.08<br>Datblygu a chynnal rhaglen Addysg i'r Teulu a Rhwng Cenedlaethau. | Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus | • Lansio Rhaglen Addysg i'r Teulu ar gyfer 2023-26.<br>• Cynnal Rhaglen Addysg i'r Teulu a gweithgareddau i blant sy'n derbyn gofal, fel y nodwyd yn y Strategaeth Rhaglenni Cyhoeddus. | Pennaeth Addysg | Ch1-Ch4<br>Ch1-Ch4 |
| A2.09<br>Datblygu Cynllun Gweithredu ar gyfer Addysg Oedolion a'i roi ar waith. | Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus | • Adolygu canfyddiadau'r rhaglen beilot.<br>• Lansio Rhaglen Addysg Oedolion ar gyfer 2023-26 gyda phartneriaid fel y nodwyd yn y Strategaeth Rhaglenni Cyhoeddus. | Pennaeth Addysg | Ch1-Ch2<br>Ch2-Ch4 |
| Mae pobl ifanc yn arwain a chynhyrchu rhaglenni a phrofiadau mentrus a chreadigol | | | | |
| A2.10<br>Ehangu ymgysylltiad â phobl ifanc. | Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus | • Sefydlu mentrau ieuenctid craidd.<br>• Cyflawni'r cynllun gweithredu. | Pennaeth Gwirfoddoli ac Ymgysylltu | Ch1-Ch2<br>Ch1-Ch4 |
| Mae gwirfoddolwyr, lleoliadau a phrentisiaid yn cael eu cefnogi i wireddu eu llawn botensial | | | | |
| A2.12<br>Adolygu Polisi a Chynllun Gweithredu ar gyfer | Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus | • Cyflawni Cynllun Gweithredu'r rhaglen wirfoddoli. | Pennaeth Gwirfoddoli ac Ymgysylltu | Ch1-Ch4 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| gwirfoddoli a lleoliadau, a'u rhoi ar waith. | | | | |
| A2.14<br>Datblygu a chynnal lleoliadau a datblygu fframwaith ar gyfer Rhaglen Brentisiaethau strwythuredig. | Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus | • Datblygu rhaglen lleoliadau a phrentisiaethau newydd yn unol â Chynllun Gweithredu'r Strategaeth Rhaglenni Cyhoeddus. | Pennaeth Gwirfoddoli ac Ymgysylltu, Pennaeth Adnoddau Dynol (prentisiaethau), Penaethiaid Amgueddfa Wlân Cymru, Big Pit, Sain Ffagan ac Amgueddfa Lechi Cymru | Ch1-Ch4 |

## Addewid Strategol 3: Diogelu ac adfer natur a'r amgylchedd

| Gweithgaredd | Cyfarwyddwr | Cynllun Gweithredol 2023/24 – Camau Gweithredu | Arweinydd | Chwarter |
|---|---|---|---|---|
| Ymgorfforu ein hymateb i'r argyfwng amgylcheddol a natur ym mhopeth a wnawn | | | | |
| A3.01<br>Datblygu Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy i gefnogi targed datgarboneiddio Llywodraeth Cymru, a chyfrannu at dargedau Sector Cyhoeddus Cymru i gyrraedd Carbon Sero | Profiad Ymwelwyr | • Gwireddu'r Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy sylfaenol.<br>• Cyflawni projectau a noddir gan Lywodraeth Cymru i ddatgarboneiddio gweithgarwch safleoedd (nawdd hyd at 2024/25).<br>• Adrodd ar dargedau Sero Net Sector Cyhoeddus Cymru yn flynyddol. | Cyfarwyddwr Profiad Ymwelwyr / Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol | Ch1-Ch4<br>Ch2, Ch4<br><br>Ch1-Ch3 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Net erbyn 2030, a'i roi ar waith. | | | | |
| A3.02<br>Adolygu ein polisi a chynllun gweithredu Amgylcheddol yn flynyddol i sicrhau gwelliant parhaus, a chynnal ein statws cydymffurfio achrededig (gan gynnwys ein defnydd o ynni a rheoli gwastraff). | Profiad Ymwelwyr | • Adolygu a datblygu prosesau rheoli gwastraff yn unol â chanllawiau diwygiedig.<br>• Cydymffurfiaeth Seren blynyddol. | Cyfarwyddwr Profiad Ymwelwyr / Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil / Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol | Ch2, Ch4<br><br>Ch4 |
| A3.03<br>Datblygu Cynllun Rheoli Adfer Tir a Natur ar gyfer bioamrywiaeth ac adfer ar bob un o'n 8 safle. | Profiad Ymwelwyr | • Adolygu cynnydd a chynllunio a nodi meysydd blaenoriaeth i'w cwblhau erbyn 2030. | Cyfarwyddwr Profiad Ymwelwyr / Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil / Penaethiaid y Gwyddorau Naturiol a Phennaeth yr Uned Adeiladau Hanesyddol, gerddi ac ystadau / Rheolwr Gwirfoddoli | Ch1-Ch4 |
| A3.031<br>Datblygu a chryfhau ein prosesau caffael cyfredol i helpu i gefnogi cadwyni cyflenwi lleol. | Adnoddau Corfforaethol | • Dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru i hysbysebu ein tendrau fel rhai sy'n addas ar gyfer busnesau bach a chanolig lle bo modd.<br>• Ceisio gwybodaeth am isgontractwyr lleol/cadwyni cyflenwi lleol mewn tendrau.<br>• Darparu cyngor ac arweiniad i staff ar gyfer pryniannau carbon is, er mwyn | Pennaeth Cyllid | Ch4<br><br>Ch4<br><br>Ch4 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | annog y defnydd o gyflenwyr lleol lle bo'n bosib.<br>• Adrodd ar ganran o wariant gan fusnesau bach a chanolig lleol fel metrig mesur / Dangosydd Perfformiad Allweddol. | | Ch4 |
| Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r argyfwng amgylcheddol ac ysgogi pobl i ymateb | | | | |
| A3.04<br>Cynnal rhaglenni digwyddiadau ac arddangosfeydd i godi ymwybyddiaeth o'r argyfwng hinsawdd. | Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus | • Cyflawni cynllun gweithredu ar gyfer 2023-26 fel y nodwyd yn y Strategaeth Rhaglenni Cyhoeddus. | Pennaeth Digwyddiadau / Pennaeth Arddangosfeydd a Dylunio | Ch1-Ch4 |
| Mae ymchwil yn canolbwyntio ar fioamrywiaeth a newid amgylcheddol yng Nghymru, neu sydd o fudd i Gymru | | | | |
| A3.07<br>Datblygu rhaglen ymchwil 5 mlynedd newydd. | Casgliadau ac Ymchwil | • Cwblhau a chyhoeddi Rhaglen Ymchwil 5 mlynedd.<br>• Rhannu canlyniadau ymchwil ar amrywiaeth o blatfformau, gydag o leiaf un project yn ymwneud yn uniongyrchol ag adfer cynefinoedd naturiol.<br>• Cefnogi'r broses o roi Arolygon Bioamrywiaeth Amgueddfa Cymru ar waith. | Pennaeth Ymchwil/Penaethiaid y Gwyddorau Naturiol<br><br>Penaethiaid y Gwyddorau Naturiol | Ch4<br><br>Ch4<br><br>Ch4 |
| A3.08<br>Sefydlu a chynnal rhwydwaith partneriaeth newydd yng Nghymru ac yn rhyngwladol. | Casgliadau ac Ymchwil | • Datblygu partneriaeth strategol gyda Phrifysgol Bangor, a chytuno ar feysydd blaenoriaeth sy'n ymwneud â'r môr a choedwigoedd.<br>• Datblygu o leiaf tri phroject sy'n cofnodi Bioamrywiaeth. | Pennaeth Ymchwil/Penaethiaid y Gwyddorau Naturiol<br>Penaethiaid y Gwyddorau Naturiol | Ch2-Ch4<br><br>Ch2 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A3.081<br>Adnabod a datgan ein gwaith ar y cyd ag ymchwilwyr a chymunedau amrywiol eu hethnigrwydd a'u diwylliant sydd wedi'u lleiafrifo, wrth ehangu dealltwriaeth y cyhoedd o fyd natur a'r amgylchedd. | | • Adolygu'r portffolio projectau ymchwil a nodi unrhyw fylchau/gwendidau.<br><br>• Datblygu rhaglen waith newydd ar gyfer 2026-30. | Pennaeth Ymchwil/Penaethiaid y Gwyddorau Naturiol<br><br>Penaethiaid y Gwyddorau Naturiol | Ch1-Ch4<br><br>Ch3 |

## Addewid Strategol 4: Cefnogi lles gyda llefydd a phrofiadau sy'n ysbrydoli

| Gweithgaredd | Cyfarwyddwr | Cynllun Gweithredol 2023/24 – Camau Gweithredu | Arweinydd | Chwarter |
|---|---|---|---|---|
| Mae ein hamgueddfeydd yn ofodau sy'n cefnogi lles | | | | |
| A4.01<br>Ailddatblygu Amgueddfa Lechi Cymru gyda phartneriaid a chymunedau lleol i ddatblygu amgueddfa fyd-enwog i'n hymwelwyr a'n cymunedau, ac fel partner allweddol yn natblygiad Amgueddfa'r Gogledd. | Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil | • Cwblhau Achos Amlinelliad Strategol.<br>• Dechrau datblygu achos busnes amlinellol.<br><br>• Comisiynu Tîm Dylunio i ddatblygu a chyflawni cynlluniau i Gam 3 Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA).<br>• Dechrau gwaith ar gyflawni Project Ffyniant Bro.<br>• Datblygu Cynllun Gweithgareddau ar gyfer datblygu Amgueddfa Lechi Cymru.<br>• Cefnogi gwaith ymchwil a chwmpasu dan arweiniad Llywodraeth Cymru | Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil/Cyfarwyddwr Project<br><br>Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil<br><br>Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil/Cyfarwyddwr Project | Ch2<br>Ch1-Ch3<br><br>Ch4<br><br>Ch1<br><br>Ch2-Ch4 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | mewn perthynas â datblygiad Amgueddfa'r Gogledd | | |
| A4.02<br>Cyflawni project uwchgynllunio Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, drwy fethodoleg gyfranogol, ar y cyd â'r tîm dylunio arbenigol. | Profiad Ymwelwyr | • Parhau i alinio gwaith cynnal a chadw arfaethedig neu at y dyfodol gyda'r cynllun cysyniadol.<br>• Parhau i asesu dichonoldeb dyluniadau'r dyfodol ar gyfer projectau posibl a photensial cyllid yn y dyfodol. | Cyfarwyddwr Profiad Ymwelwyr (Cyfarwyddwr Project) / Pennaeth Projectau Oriel (Rheolwr Project) | Ch1-Ch4 |
| A4.03<br>Gwella mynediad corfforol i bob safle Amgueddfa Cymru. | Profiad Ymwelwyr | • Rhoi argymhellion a chamau gweithredu o Archwiliadau Mynediad ar waith. | Cyfarwyddwr Profiad Ymwelwyr gyda Phenaethiaid Safle; Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol, Pennaeth Adeiladau, Pennaeth TGCh a Digidol a'r Pennaeth Marchnata | Ch1-Ch4 |
| Mae pobl yn cael eu cefnogi i fyw bywydau iachach a hapusach fel rhan o raglen les i Gymru | | | | |
| A4.05<br>Cynnal rhaglenni lles cydweithredol gyda sectorau a darparwyr eraill. | Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus | • Cydweithio â'r Gymdeithas Alzheimer's yng Nghymru i sefydlu rôl Amgueddfa Cymru fel llais dementia arweiniol dros Gymru.<br>• Cefnogi datblygiad Fframwaith Presgripsiynu Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. | Pennaeth Addysg a'r Penaethiaid Profiad Ymwelwyr | Ch1-Ch4<br><br>Ch3-Ch4 |

| Cefnogi mwynhad a lles y cyhoedd drwy brofiadau ein hymwelwyr | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A4.06<br>Datblygu Cynllun Gweithredu Profiad Ymwelwyr i gefnogi mwynhad a lles. | Profiad Ymwelwyr | • Adolygu'r Cynllun Gweithredu Profiad Ymwelwyr a chreu cynllun gweithredu newydd ar gyfer 2024/25 – 2026/27 i greu cynnig integredig ac amrywiol i ymwelwyr.<br>• Parhau i weithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru ar waith i ehangu ymgysylltiad o ran mynediad. | Pennaeth Sain Ffagan<br><br>Cyfarwyddwr Profiad Ymwelwyr a Phennaeth Sain Ffagan | Ch1-Ch4<br><br>Ch1-Ch4 |
| A4.08<br>Datblygu profiadau ymwelwyr, hyfforddiant gofal ymwelwyr a darpariaeth gwasanaeth cwsmer blaenllaw yn y sector. | Profiad Ymwelwyr | • Monitro ac adolygu effaith y rhaglen hyfforddi Rhagoriaeth mewn Gofal Ymwelwyr. | Pennaeth Sain Ffagan | Ch1-Ch4 |
| A4.09<br>Datblygu a rhoi cynlluniau ar waith i gynnal sgiliau traddodiadol a chrefft ar draws Amgueddfa Cymru. | Profiad Ymwelwyr | • Datblygu Strategaeth Grefftau ar draws Amgueddfa Cymru.<br>• Rhoi Cynllun Olyniaeth ar waith yn Big Pit ac Amgueddfa Wlân Cymru. | Penaethiaid Amgueddfa, Cyfarwyddwr Profiad Ymwelwyr<br><br>Penaethiaid Amgueddfa | Ch2, Ch4<br><br>Ch1-Ch4 |

## Addewid Strategol 5: Darganfod yr Amgueddfa'n ddigidol

| Gweithgaredd | Cyfarwyddwr | Cynllun Gweithredol 2023/24 – Camau Gweithredu | Arweinydd | Chwarter |
|---|---|---|---|---|

| Datblygu gwasanaethau ac isadeiledd digidol i gynyddu a gwella cyrhaeddiad ac ymgysylltiad i sicrhau eu bod yn rhan hanfodol o greadigrwydd a phrofiad ymwelwyr | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A5.01<br>Datblygu a chyflawni strategaeth ddigidol i amlinellu ein hamcanion a'u halinio â Strategaeth 2030 Amgueddfa Cymru. | Prif Swyddog Gweithredu | • Rhoi'r strategaeth ddigidol ar waith gyda phartneriaid a defnyddwyr.<br>• Adolygu a gwerthuso'r strategaeth ddigidol.<br>• Datblygu cynlluniau newydd wrth i dechnoleg ddigidol ac anghenion defnyddwyr ddatblygu ac esblygu. | Pennaeth Gwasanaethau Digidol, TGCh a Thechnegol | Ch1-Ch4<br>Ch1-Ch4<br>Ch1-Ch4 |
| A5.02<br>Datblygu gwefan a mewnrwyd newydd sy'n adlewyrchu anghenion ein cyfranwyr, a'n strategaeth a brand newydd. | Prif Swyddog Gweithredu | • Cyflwyno adrannau, swyddogaethau a rhaglenni newydd y wefan i gynulleidfaoedd targed.<br>• Adolygu a gwerthuso'r broses wrth i anghenion sefydliadol a digidol esblygu. | Pennaeth Gwasanaethau Digidol, TGCh a Thechnegol | Ch1-Ch4<br>Ch1, Ch2, Ch4 |
| A5.03<br>Datblygu isadeiledd digidol sy'n addas ar gyfer y pwrpas, a'i roi ar waith. | Prif Swyddog Gweithredu | • Gwella gwytnwch a gallu ein Hisadeiledd Digidol i dyfu, gan gynnwys ein Rhwydweithiau, Gweinyddwyr, Systemau TGCh, Data, technoleg Amgueddfa Cymru a systemau Clyweledol. | Pennaeth Gwasanaethau Digidol, TGCh a Thechnegol | Ch1-Ch4 |
| A5.04<br>Cyflawni a datblygu ymhellach platfformau Rheoli Manwerthu Mentrau (ERM)/Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) a systemau a phrosesau cysylltiedig. | Prif Swyddog Gweithredu | • Cwblhau Cam 2.<br>• Cynllunio a chwblhau Cam 3 y broses o roi'r system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) ar waith.<br>• Adolygu a gwerthuso i sicrhau bod data yn llywio mewnwelediad a dealltwriaeth busnes.<br>• Cynhyrchu cynllun datblygu ar gyfer datblygiad pellach. | Pennaeth Gwasanaethau Digidol, TGCh a Thechnegol | Ch1<br>Ch1-Ch4<br>Ch1-Ch4<br>Ch4 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A5.05<br>Sicrhau uniondeb a diogelwch ein data a'n rhwydweithiau, gan gynnwys GDPR. | Prif Swyddog Gweithredu | • Rhoi'r datrysiadau gorau posib ar waith i fonitro ein hasedau digidol i sicrhau bod unrhyw dor-amod neu ddigwyddiadau diogelwch yn cael eu hadnabod a'u blocio ar unwaith. Datblygu a rhoi Strategaethau a Gweithdrefnau Diogelwch TGCh newydd Amgueddfa Cymru ar waith. | Pennaeth Gwasanaethau Digidol, TGCh a Thechnegol | Ch1-Ch4 |
| Mae ein harlwy digidol yn ategu ymweliadau â'r Amgueddfa ffisegol, gan greu profiadau cofiadwy | | | | |
| A5.07<br>Datblygu a chynnal profiadau digidol. | Prif Swyddog Gweithredu | • Parhau i roi cynlluniau ar waith, a chyflwyno mentrau a gweithgareddau newydd sydd wedi'u halinio â'r strategaeth.<br>• Adolygu a gwerthuso rhaglenni ac archwilio cyfleoedd newydd ar gyfer profiadau digidol. | Pennaeth Gwasanaethau Digidol, TGCh a Thechnegol | Ch1, Ch2, Ch4<br><br>Ch2-Ch3 |
| Gall pawb greu eu cynnwys, eu profiadau a'u cynnyrch eu hunain drwy ymgysylltu ag Amgueddfa Cymru ar-lein | | | | |
| A5.06<br>Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid i gyflawni amcanion y strategaeth 3 blynedd newydd ar gyfer Casgliad y Werin Cymru. | Prif Swyddog Gweithredu | • Gwerthuso a datblygu amcanion ar gyfer y strategaeth 3 blynedd newydd. | Rheolwr Rhaglen Casgliad y Werin Cymru | Ch1 |
| A5.08<br>Cyflawni'r Project Digideiddio Celf Gyfoes i gynyddu cyfleoedd i arddangos y casgliad cenedlaethol mewn | Casgliadau ac Ymchwil | • Parhau â'r gwaith ar blatfformau digidol a chynnwys casgliadau celf Llyfrgell Genedlaethol Cymru.<br>• Dechrau gwaith ar gyflwyno'r model gwasgaredig (yn ddibynnol ar nawdd gan Lywodraeth Cymru). | Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil | Ch1-Ch4<br><br>Ch1-Ch4 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| orielau ac amgueddfeydd dros Gymru. | | • Cwblhau'r gwaith sy'n galluogi pobl i ddatblygu eu cynnwys eu hunain.<br>• Annog pobl i ddatblygu eu cynnwys eu hunain. | | Ch1-Ch4<br><br>Ch1-Ch4 |
| A5.09<br>Gwella presenoldeb ar-lein i sicrhau y bydd profiadau, gwasanaethau a chynnwys digidol yn dathlu a chynrychioli syniadau, creadigrwydd ac arfer amrywiol a chyfoethog yng Nghymru. | Casgliadau ac Ymchwil | • Datblygu'r gwaith ar blatfformau digidol.<br><br>• Parhau i ymgynghori â defnyddwyr a rhanddeiliaid.<br>• Datblygu manyleb ar gyfer diweddaru SnBase (yn ddibynnol ar nawdd a chreu rhyngwyneb rhaglennu cymwysiadau (API) gan ddarparwr y gronfa ddata). | Pennaeth Gwasanaethau Digidol, TGCh a Thechnegol<br><br>Penaethiaid y Gwyddorau Naturiol<br>Pennaeth Gwasanaethau Casgliadau | Ch1, Ch4<br><br>Ch1, Ch4<br><br>Ch1, Ch4 |

## Addewid Strategol 6: Creu cysylltiadau ar draws y byd

| Gweithgaredd | Cyfarwyddwr | Cynllun Gweithredol 2023/24 – Camau Gweithredu | Arweinydd | Chwarter |
|---|---|---|---|---|
| Bydd Amgueddfa Cymru yn cael ei chydnabod fel amgueddfa o bwys byd-eang | | | | |
| A6.01<br>Cefnogi Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru drwy ddatblygu a | Cyfarwyddwr Cyffredinol | • Datblygu Fframwaith Rhyngwladol dros dro i gynllunio a chefnogi ein gweithgarwch rhyngwladol yn strategol. | Pennaeth Cynllunio a Materion Cyhoeddus | Ch3 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| chyflawni Strategaeth Ryngwladol Amgueddfa Cymru i gynyddu cydnabyddiaeth ar draws y byd. | | | | |
| A6.02<br>Datblygu Cynllun Gweithredu Cyfathrebu a Marchnata Rhyngwladol a'i roi ar waith. | Cyfarwyddwr Cyffredinol | • Adolygu gweithgareddau, cynlluniau a phrosesau marchnata a chyfathrebu presennol, i helpu i lywio a chefnogi datblygiad Fframwaith Rhyngwladol newydd a chyfleoedd am bartneriaethau rhyngwladol. | Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu | Ch4 |
| A6.03<br>Datblygu a rheoli partneriaethau rhyngwladol gyda llywodraethau, amgueddfeydd a phartneriaid strategol eraill. | Cyfarwyddwr Cyffredinol | • Cynnal, adolygu a datblygu partneriaethau. | Pennaeth Cynllunio a Materion Cyhoeddus, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil, Cyfarwyddwr Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus | Ch1-Ch4 |
| A6.04<br>Datblygu Cynllun Gweithredu Teithio Rhyngwladol ar gyfer Arddangosfeydd Amgueddfa Cymru. | Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus | • Datblygu taith ryngwladol yn y DU a'r UDA i'w chynnal yn 2026 sy'n canolbwyntio ar Gwen John. | Cyfarwyddwr Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus / Pennaeth Arddangosfeydd a Theithio Rhyngwladol | Ch1-Ch4 |
| Cefnogi twf twristiaeth o'r DU a rhyngwladol yng Nghymru | | | | |
| A6.06<br>Datblygu cynllun gweithredu a'i roi ar | Prif Swyddog Gweithredu | • Gweithio gyda phartneriaid yn y sector twristiaeth i gefnogi datblygiad cynllun gweithredu twristiaeth. | Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu | Ch1-Ch4 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| waith i gefnogi Twristiaeth Ddiwylliannol, er mwyn codi ymwybyddiaeth ar draws gweddill y DU a'r byd. | | • Cynnal perthynas a chyfrannu at y partneriaethau Treftadaeth y Byd UNESCO isod:<br>(i) Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon, a<br>(ii) Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru. | (i) Cyfarwyddwr Profiad Ymwelwyr / Pennaeth Big Pit<br>(ii) Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil | (i) Ch2, Ch4<br><br>(ii) Ch1-Ch4 |

## Hwyluswyr Strategol

| Gweithgaredd | Cyfarwyddwr | Cynllun Gweithredol 2023/24 – Camau Gweithredu | Arweinydd | Chwarter |
|---|---|---|---|---|
| Mae ein llywodraethiant ariannol a'n rheolaeth gref yn sicrhau sefydlogrwydd | | | | |
| B1.01<br>Cynnal systemau, prosesau a rheolaeth cyllid/caffael cadarn, sy'n bodloni gofynion gweithredol a chyfreithiol yn effeithiol. | Adnoddau Corfforaethol | • Paratoi cyllidebau drafft i'w cymeradwyo gan y Bwrdd.<br>• Cynhyrchu cyfrifon rheoli misol ar gyfer y Tîm Gweithredol Strategol, ac adroddiadau ariannol chwarterol i'r Bwrdd, y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad ac Adnoddau, a Llywodraeth Cymru.<br>• Gweithio i ddatblygu strategaeth ariannol ehangach ar ôl recriwtio Cyfarwyddwr Cyllid fel rhan o broses yr Adolygiad Teilwredig. | Pennaeth Cyllid<br><br><br><br><br>Cyfarwyddwr Cyllid (yn amodol ar benodiad) | Ch4<br><br>Ch1-Ch4<br><br><br><br>Ch4 |
| Mae cynhyrchu rhagor o incwm yn ein cynorthwyo i roi Strategaeth 2030 Amgueddfa Cymru ar waith | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| B1.02<br>Datblygu Strategaeth Cynhyrchu Incwm Amgueddfa Cymru sy'n cyd-fynd â'r strategaeth sefydliadol. | Datblygu Busnes<br><br>Casgliadau ac Ymchwil<br><br>Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus | • Adolygu a gwerthuso'r gwaith o wireddu Strategaeth Cynhyrchu Incwm 2021 – 2024 a datblygu strategaeth newydd ar gyfer 2025 – 2030.<br>• Parhau i roi'r Strategaeth Cynhyrchu Incwm ar waith.<br>• Parhau i roi'r Cynllun Incwm Casgliadau ac Ymchwil ar waith.<br>• Datblygu Cynllun Incwm Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus a'i roi ar waith. | Cyfarwyddwr Datblygu Busnes, Nia Elias<br><br>Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil<br><br>Cyfarwyddwr Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus | Ch3, Ch4<br><br>Ch1-Ch4<br><br>Ch4<br><br>Ch1-Ch4 |
| Bydd rhaglen ymchwil a gwerthuso gynhwysfawr yn llywio a datblygu pob agwedd o'n gwaith | | | | |
| B1.03<br>Datblygu Rhaglen Ymchwil sy'n alinio â'r gwaith o wireddu'r strategaeth a'r Addewidion, a'i rhoi ar waith. | Casgliadau ac Ymchwil | • Rhoi'r Strategaeth Ymchwil ar waith.<br>• Parhau i ddatblygu projectau newydd a noddir, a monitro cynnydd projectau cyfredol. | Pennaeth Ymchwil | Ch4<br>Ch2 |
| B1.031<br>Datblygu cynllun ar gyfer Ymchwil Gyfranogol, sy'n cynnig cyfleoedd i unigolion a phartneriaid cymunedol, a'i roi ar waith. | Casgliadau ac Ymchwil | • Parhau i roi'r cynllun ar waith.<br>• Gwerthuso cynnydd ac effeithiolrwydd gyda phartneriaid allweddol.<br>• Cynnal Rhaglen Gynefino i Gymrodyr Ymchwil Anrhydeddus, monitro ac adrodd ar gynnydd. | Pennaeth Ymchwil a Phenaethiaid Adran | Ch1-Ch4<br>Ch1-Ch4<br><br>Ch4 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| B1.06<br>Codi proffil allanol ein gallu ymchwil, o ran arbenigedd penodol, a'r adnoddau sydd ar gael i ymchwilwyr. Gweithio gyda phartneriaid cymunedol i ddatblygu methodolegau newydd ar gyfer ymchwil gyfranogol. | Casgliadau ac Ymchwil | • Parhau i godi ein proffil ymchwil, gan gynnwys cyhoeddi erthyglau a adolygwyd gan gymheiriaid.<br>• Cynnal symposiwm ymchwil. | Pennaeth Ymchwil | Ch1-Ch4<br><br>Ch3 |
| B1.07<br>Hwyluso a chefnogi'r gwaith o gwblhau projectau, gan gynnwys archifo gwybodaeth project er mwyn i ni edrych yn ôl ar y gwersi a ddysgwyd wrth weithio ar brojectau yn y dyfodol. | Adnoddau Corfforaethol | • Projectau trawsnewidiol penodol wedi'u cefnogi gan y Swyddfa Brojectau.<br>• Adolygu a diweddaru templedi a dogfennau er mwyn ymgorffori gwersi a ddysgwyd, neu weithdrefnau Amgueddfa Cymru diwygiedig.<br>• Adrodd yn chwarterol ar gynnydd projectau penodol i'r Uwch Dîm Gweithredol drwy'r Gofrestr Brojectau. | Cyfarwyddwr Datblygu Orielau a'r Swyddfa Brojectau | Ch1-Ch4<br><br>Ch1, Ch3, Ch4<br><br>Ch1-Ch4 |
| Rydym yn cefnogi a datblygu ein pobl, ymddiriedolwyr a gwirfoddolwyr, gan sicrhau ymddiried, parch a chynhwysiant | | | | |
| B1.08<br>Datblygu Strategaeth Pobl ac Adnoddau Dynol a'i rhoi ar waith. | Adnoddau Corfforaethol | • Parhau i gyflawni ac ymgorffori model Cynllun Busnes yr adran Adnoddau Dynol.<br>• Parhau i roi'r strategaeth Adnoddau Dynol ar waith i gefnogi cynaliadwyedd sefydliadol a'r strategaeth hirdymor gyffredinol. Bydd elfennau'n cynnwys Arwain, Ysgogi Canlyniadau a Rheoli Newid. | Pennaeth Adnoddau Dynol | Ch3<br><br>Ch4 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| B1.09<br>Datblygu Cynllun Cyfathrebu Mewnol a'i roi ar waith. | Prif Swyddog Gweithredu | • Adolygu ein cyfathrebu mewnol er mwyn llywio datblygiad cynllun newydd. | Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu | Ch1-Ch4 |
| B1.10<br>Ymgorffori Buddsoddwyr mewn Pobl ym mhopeth a wnawn, a chyrraedd lefel nesaf y Safon Buddsoddwyr mewn Pobl ar draws pob amgueddfa. | Prif Swyddog Gweithredu | • Parhau i weithio i gyflawni lefel nesaf Buddsoddwyr mewn Pobl.<br>• Cynnal Digwyddiadau Datblygu Staff bob dwy flynedd. | Pennaeth Adnoddau Dynol | Ch2<br><br>Ch3 |
| Rydym yn dangos esiampl wrth lywodraethu'r sefydliad gan sicrhau bod pobl Cymru yn rhan o'n penderfyniadau | | | | |
| B1.11<br>Mae strwythurau a threfniadau llywodraethu yn hwyluso penderfyniadau ac yn adlewyrchu Strategaeth Amgueddfa Cymru 2030. | Cyfarwyddwr Cyffredinol | • Gyda Llywodraeth Cymru a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, creu grŵp gorchwyl a gorffen a datblygu cynllun gweithredu i'w roi ar waith yn unol â'r argymhellion yn yr Adroddiad Teilwredig ar Amgueddfa Cymru a gyhoeddwyd.<br>• Cynllunio ar gyfer adolygu partneriaeth Amgueddfa Genedlaethol y Glannau â Chyngor Abertawe (25 mlynedd ers Hydref 2005). | Pennaeth Cynllunio a Materion Cyhoeddus<br><br>Cyfarwyddwr Profiad Ymwelwyr a Phennaeth Amgueddfa Genedlaethol y Glannau | Ch4<br><br>Ch1-Ch4 |
| B1.12<br>Adrodd ar berfformiad a chynllunio sefydliadol i Fwrdd yr | Prif Swyddog Gweithredu | • Cynhyrchu adroddiadau chwarterol a'r adroddiad blynyddol yn unol â'r amserlen. | Pennaeth Cynllunio a Materion Cyhoeddus<br><br>Pennaeth Cyllid/Pennaeth | Ch1-Ch4<br><br>Ch2-Ch3 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolwyr a Llywodraeth Cymru. | | • Cynhyrchu Cyfrifon ac Adroddiad Blynyddol a derbyn adroddiad archwiliad glân.<br><br>• Datblygu ac adrodd ar Gynllun Gweithredol 2024/25 a chynhyrchu'r adolygiad blynyddol. | Cynllunio a Materion Cyhoeddus<br><br>Pennaeth Cynllunio a Materion Cyhoeddus | Ch3-Ch4 |
| Mae'r iaith Gymraeg yn rhan annatod o bob agwedd o'n gwaith | | | | |
| B1.13<br>Polisi a Chynllun Gweithredu'r Iaith Gymraeg diwygiedig. | Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus | • Adolygu a diwygio Polisi Iaith Gymraeg ar y cyd â'n Hamcanion Cydraddoldeb.<br><br>• Cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol. | Cyfarwyddwr Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus/Cydlynydd y Gymraeg<br><br>Cydlynydd y Gymraeg | Ch3-Ch4<br><br>Ch2 |
| B1.14<br>Cefnogi dysgu Cymraeg ar y cyd â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. | Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus | • Darparu mentrau dysgu i staff. | Pennaeth Adnoddau Dynol | Ch1-Ch4 |
| B1.15<br>Darparu profiadau a gwasanaethau iaith Gymraeg. | Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus | • Darparu profiadau ymwelwyr a rhaglenni cyhoeddus drwy gyfrwng y Gymraeg dros Gymru ac ar-lein, gan gynnwys defnyddio dull lluosieithog i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg. | Cyfarwyddwr Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus, Penaethiaid Profiad Ymwelwyr, Digidol a Rhaglenni, Cydlynydd y Gymraeg | Ch1-Ch4 |
| Bydd pawb yng Nghymru yn adnabod brand Amgueddfa Cymru ac yn ymddiried ynddo | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| B1.16<br>Cyflwyno brand newydd Amgueddfa Cymru. | Prif Swyddog Gweithredu | • Ymgorffori'r brand newydd ar draws y sefydliad. | Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu | Ch1-Ch4 |
| B1.17<br>Datblygu a chyflawni Strategaeth Marchnata a Chyfathrebu i rannu straeon ac ysbrydoli creadigrwydd. | Prif Swyddog Gweithredu | • Gweithio gydag adrannau sy'n darparu gwasanaethau, (Profiad Ymwelwyr, Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus, Casgliadau ac Ymchwil) i ddeall y prif weithgareddau er mwyn llywio datblygiad strategaeth Marchnata a Chyfathrebu effeithiol a pherthnasol.<br>• Rhoi Cam 2 y rhaglen datblygu brand ar waith i gyflwyno'r brand ar draws y safleoedd unigol a meysydd craidd gwaith Amgueddfa Cymru. | Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu | Ch1-Ch4<br><br>Ch4 |
| B1.18<br>Datblygu Cynllun Gweithredu Eiriolaeth a Materion Allanol yn rhan o'r Strategaeth Marchnata a Chyfathrebu. | Prif Swyddog Gweithredu | • Rhoi'r Cynllun Eiriolaeth a Materion Allanol ar waith, a'i adolygu yn 2025-26. | Pennaeth Cynllunio a Materion Cyhoeddus | Ch1-Ch4 |
| B1.19<br>Datblygu blaenoriaethau corfforaethol a chyfranwyr a'u rhoi ar waith. | Prif Swyddog Gweithredu | • Sefydlu prosesau i ddiweddaru ein mewnwelediad i ddisgwyliadau ein cynulleidfa a'n cynulleidfaoedd blaenoriaeth yn barhaol.<br>• Gweithio gyda'n partneriaid a'n defnyddwyr i greu cynnwys ac ymateb i dueddiadau digidol newydd. | Pennaeth Gwasanaethau Digidol, TGCh a Thechnegol/Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu | Ch1-Ch4<br><br>Ch1-Ch4 |
| Mae ein hadeiladau a'n cyfleusterau yn addas i'r pwrpas | | | | |
| B1.20 | Adnoddau Corfforaethol | • Rhoi'r Cynllun 5 Mlynedd cymeradwy ar waith. | Pennaeth Adeiladau ac Ystadau | Ch1-Ch4 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Datblygu Strategaeth Rheoli Ystadau 5 mlynedd a chynlluniau cysylltiedig, a'u rhoi ar waith. | | | | |
| B1.201<br>Datblygu strategaeth storio gynhwysfawr a'i rhoi ar waith. | Casgliadau ac Ymchwil | • Rhoi rhaglen resymoli beilot ar waith.<br>• Dechrau cyflwyno Strategaeth mewn dull strwythuredig, gan flaenoriaethu safleoedd yn glir.<br>• Parhau i roi cyfleusterau storio a rennir mewn grym (yn ddibynnol ar nawdd). | Pennaeth Gwasanaethau Casgliadau | Ch1-Ch4<br>Ch1-Ch3<br><br>Ch1-Ch4 |
| Mae ein hamgueddfeydd a'n harferion gwaith yn ddiogel, ac yn cydymffurfio â gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch | | | | |
| B1.21<br>Sicrhau iechyd, diogelwch a lles ein staff a'n hymwelwyr. | Profiad Ymwelwyr | • Sicrhau cydymffurfiaeth iechyd a diogelwch ar draws Amgueddfa Cymru.<br><br>• Sicrhau bod pob amgueddfa wedi'i staffio'n ddigonol ac yn effeithiol er mwyn darparu profiad diogel, gwerthfawr a phleserus i ymwelwyr.<br><br>• Sicrhau bod pob amgueddfa yn gallu agor i'r cyhoedd ar y dyddiadau ac amseroedd a nodwyd. | Penaethiaid Amgueddfeydd | Ch1-Ch4<br><br>Ch1-Ch4<br><br>Ch1-Ch4 |